Adroddiad Asesu Cydymffurfiaeth: CAR_NRW0048353

Trwydded a asesir: CG0151901

Ar gyfer: Llanfairpwll - Plas Newydd **a ddelir gan:** Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Yn: Llanfairpwllgwyngyll, Ynys Môn, LL61 6DQ.

Math o asesiad: Archwilio safle

Rheswm: Arferol

Ar: 16-05-2025 rhwng 09:00 ac 14:25.

Rhannau o'r drwydded a aseswyd: 1.1 Rheolaeth Gyffredinol; 2 Gweithrediadau; 3.1 Allyriadau i Ddŵr; 3.3 Monitro; 4.1 Cofnodion; Atodlen 3 Allyriadau a Monitro.

Swyddog arweiniol Cyfoeth Naturiol Cymru: Ceris Evans.

Anfonwyd yr adroddiad at: Cynghorydd Hinsawdd ac Amgylchedd; Rheolwr Cyfleusterau, ar 29.01.2026.

1. Crynodeb o'n canfyddiadau (ceir manylion llawn yn adran 4)

Y rhan o'r gweithgarwch trwyddedig a aseswyd (defnyddier y meini prawf ar gyfer camau gweithredu isod)	Canlyniad yr asesiad	Amod y drwydded (lle nad yw'n cydymffurfio)
WQ-A1 Rheolaeth - Rheolaeath gyffredinol	A - Wedi'i asesu	
WQ-B1 Gweithrediadau - Gweithgareddau a ganiateir	A - Wedi'i asesu	
WQ-B2 Gweithrediadau - Y safle	A - Wedi'i asesu	
WQ-C1 Allyriadau a monitro - Allyriadau i dŵr	A - Wedi'i asesu	
WQ-C4 Allyriadau a monitro - Gosod tyllau turio monitro	C4 Dim dylanwad amgylcheddol	Atodlen 3 Allyriadau a Monitro: Amlder gwaith monitro wythnosol/misol olew neu saim gweladwy yng ngollyngfa elifiant carthion wedi'u trin 1
WQ-C4 Allyriadau a monitro - Gosod tyllau turio monitro	C4 Dim dylanwad amgylcheddol	Atodlen 3 Allyriadau a monitro: Monitro wythnosol/misol i wirio nad yw'r gollyngiadau yn cael unrhyw effaith andwyol weladwy ar y

Y rhan o'r gweithgarwch trwyddedig a aseswyd (defnyddier y meini prawf ar gyfer camau gweithredu isod)	Canlyniad yr asesiad	Amod y drwydded (lle nad yw'n cydymffurfio)
		dŵr sy'n derbyn, ar wely'r cwrs dŵr nac ar unrhyw blanhigion neu anifeiliaid o fewn y cwrs dŵr.
WQ-C4 Allyriadau a monitro - Gosod tyllau turio monitro	C4 Dim dylanwad amgylcheddol	Atodlen 3 Allyriadau a Monitro: Amlder gwaith monitro wythnosol/misol i wirio trwy ymddangosiad gweledol bod y gollyngiad yn glir yn yr elifiant carthion wedi'u trin trwy allfa 1.
WQ-C4 Allyriadau a monitro - Gosod tyllau turio monitro	C4 Dim dylanwad amgylcheddol	3.3.1 Bydd dulliau mynediad parhaol yn cael eu darparu i ganiatau cynnal gwaith samplu/monitro mewn perthynas â'r pwyntiau allyrru a bennir yn atodlen 3 tablau S3.1, S3.2 ac S3.3 oni bai bod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cytuno fel arall yn ysgrifenedig..
WQ-D3 Gwybodaeth - Hysbysiadau	A - Wedi'i asesu	

Ceir esboniad mwy manwl o fathau o ganlyniad yn yr adran ‘Gwybodaeth bwysig’ isod.

2. Pa gam gweithredu sy'n ofynnol?

Meini prawf	Cam gweithredu angenrheidiol	Wedi'i gwblhau erbyn
WQ-C4	Ymgymryd â gwaith monitro wythnosol/misol i sicrhau nad oes unrhyw olew na saim gweladwy yn allfa'r elifiant carthion sydd wedi'i drin 1. Terfyn y drwydded yw “nad oes olion sylweddol yn bresennol".	27/02/26
WQ-C4	Cynnal gwaith monitro gweledol wythnosol/misol i sicrhau nad yw’r gollyngiad yn cael unrhyw effaith weledol andwyol ar y dŵr derbyn, gwely'r cwrs dŵr nac unrhyw blanhigion neu anifeiliaid o fewn y cwrs dŵr.	27/02/26
WQ-C4	Cynnal gwaith monitro gweledol wythnosol/misol i sicrhau bod y gollyngiad yn glir yn ardal y carthion sydd wedi'u trin trwy allfa 1.	27/02/26

Meini prawf	Cam gweithredu angenrheidiol	Wedi'i gwblhau erbyn
WQ-C4	Cadw pwyntiau samplu'n glir bob amser.	27/06/26

Rhestrir codau meini prawf y camau gweithredu yn yr adran 'Gwybodaeth bwysig' isod.

3. Beth fydd yn digwydd nesaf?

Mae unrhyw achos o beidio â chydymffurfio rydym wedi'i nodi a'i gofnodi ar y ffurflen hon yn drosedd. Gall arwain at erlyniadau troseddol a/neu waharddiad neu ddirymu eich trwydded.

Ac

Nid yw'r datganiad hwn yn ein hatal rhag cymryd camau gorfodi ychwanegol os bydd gwybodaeth berthnasol bellach yn dod i'r amlwg neu os bydd y troseddau'n parhau.

4. Manylion ein hasesiad

Diolch am eich amser yn ystod yr archwiliad o safle'r drwydded. Archwiliwyd tair trwydded yn ystod yr ymweliad, ac roedd hon yn un ohonynt.

Aeth swyddog CNC drwy'r drwydded gyda chynrychiolwyr deiliad y drwydded ac yna ymwelodd â'r system garthion. Mae gan y safle ddwy system garthion ar y safle sy'n gwasanaethu gwahanol adeiladau ac mae ganddynt drwyddedau gwahanol. Mae'r system y mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio arni wedi'i thrwyddedu gan drwydded rhif CG0151901. System trin carthion Kee BioDisc yw'r system. Mae'r system garthion hon yn cwmpasu Tŷ Gwledig a Gerddi Plas Newydd ar y safle.

Eglurwyd bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Iedled Cymru yn datblygu "Cynlluniau Rheoli Carthion" ar gyfer safleoedd sydd eu hangen.

Mae golau ar y system, ond, nid yw wedi'i gysylltu â larwm sy'n golygu pan fydd aelod o staff yn gweld y golau bydd yn mynd ati i weithredu ar broblemau.

Archwiliwyd cofnodion gwasanaeth yn cwmpasu 2021, 2022 a dau a gynhaliwyd yn 2023. Yn 2023 cafodd y system ei charthu a'i gwasanaethu gyda thrap saim a gorsaf bwmpio a chafodd dau getris saim eu gosod. Cofnododd yr adroddiad gwasanaeth diweddaraf yn 2023 fod y system "yn gweithio'n dda, dim rhannau wedi'u gwisgo".

ATODLEN 3 - ALLYRIADAU A MONITRO
ATU-BOD fel O2 (terfyn o 40 mg/l)
Canlyniad sampl dŵr 21 Mehefin 2022 yw 1.9 mg/l sydd ymhell o fewn terfyn y drwydded.

Solidau Crog (mesurwyd ar ôl sychu ar 105 gradd C) (terfyn o 60 mg/l)

Canlyniad sampl dŵr 21 Mehefin 2022 yw 7 mg/l sydd ymhell o fewn terfyn y drwydded.

Nitrogen Amoniacaidd fel N (dim terfynau o fewn y drwydded)

Cofnodwyd canlyniad y sampl dŵr ar 21 Mehefin 2022 fel 4.2 mg/l.

Cyfaint Llif Dyddiol (terfyn 30m3/dydd)

Y llif dyddiol yw 19.6m3/dydd.

ACHOSION O ANGHYDYMFFURFIO

Atodlen 3: Allyriadau a Monitro

Mae angen gwelliannau mewn monitro ar gyfer cydymffurfio â thrwyddedau. Rhaid monitro'r elifiant carthion wedi'u trin drwy allfa 1 yn wythnosol/misol i sicrhau:

a) Nad oes dim olion sylweddol o olew na saim gweladwy yn bresennol;

b) Bod ymddangosiad gweledol y gollyngiad yn glir;

c) Nad yw'r gollyngiad yn cael unrhyw effaith weledol andwyol ar y dŵr sy'n ei dderbyn, ar wely'r cwrs dŵr nac ar unrhyw blanhigion neu anifeiliaid o fewn y cwrs dŵr. Mae angen gwneud hyn pan fo'n ddiogel gwneud hynny oherwydd yr amodau peryglus yn y dyfroedd derbyn.

d) Rhaid cadw cofnodion o'r gwaith monitro yn unol ag amod 1.1.2 "Rhaid cadw cofnodion sy'n dangos cydymffurfiaeth ag amod 1.1.1". Nododd cynrychiolwyr deiliaid trwyddedau ar ddiwrnod yr archwiliad y byddant yn cynnwys y gofynion monitro hyn yn eu Cynllun Rheoli Carthion.

ARSYLWI

Golau

Cysylltwch y golau â system larwm os yw'n bosibl er mwyn osgoi dibynnu ar aelod o staff i sylwi arno ac i osgoi oedi wrth ymateb i broblemau a allai effeithio ar yr amgylchedd. Nodwyd yn y drafodaeth fod telemetreg yn cael ei archwilio.

Diogelwch y safle

Mae lleoliad y gwaith carthion wedi'i leoli wrth ymyl llwybr cyhoeddus ar y safle. Nid oedd yn amlwg pryd y cynhaliwyd yr archwiliad oherwydd tyfiant yr haf ar goed cyfagos ac ati, fodd bynnag, ond gall bod ar adegau eraill o'r flwyddyn. Sicrhau bod y cyhoedd wedi'u gwahardd o'r ardal, bod y gwaith carthion yn ddiogel bob amser, nad oes unrhyw beryglon i'r cyhoedd a bod arwyddion priodol yn cael eu gosod.

Diolch am eich cydweithrediad cyn, yn ystod ac ar ôl yr archwiliad safle hwn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r adroddiad hwn, neu eich bod am drafod cwblhau unrhyw gamau gweithredu, cysylltwch â'r swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru a enwir uchod.

Gwybodaeth bwysig

Statws cyfreithiol yr adroddiad hwn
Cyflwynir eich trwydded i chi o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Mae gennych gyfrifoldeb i gydymffurfio ag amodau eich trwydded ac atal llygredd/niwed i'r amgylchedd. Mae'n rhaid i chi hefyd sicrhau eich bod yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth arall a allai fod yn gymwys i weithrediadau eich safle.

Mae'r adroddiad hwn yn egluro canfyddiadau ein hasesiad ac unrhyw gamau gweithredu y mae'n ofynnol i chi eu cymryd. Rydym yn categoreiddio achosion o fethu â chydymffurfio gan ddefnyddio ein canllawiau ar gyfer asesu achosion o fethu â chydymffurfio ar safleoedd rheoledig.

Pan fyddwn yn canfod achos neu achosion posibl o fethu â chydymffurfio byddwn fel arfer yn rhoi cyngor i chi ar sut i sicrhau cydymffurfiaeth.

Er mwyn adfer achos o fethu â chydymffurfio, gallwn wneud y canlynol:
- gofyn i chi gymryd camau gweithredu penodol
- cyflwyno hysbysiad
- adolygu amodau eich trwydded.

Bydd unrhyw gyngor ac arweiniad a roddir gennym heb ragfarn i unrhyw ymateb gorfodi arall y gallwn ystyried ei fod yn ofynnol.

Canlyniadau asesiad a chategorïau achosion o fethu â chydymffurfio (a ddefnyddir yn adran 1):

Canlyniad yr asesiad	Disgrifiad
Wedi'i asesu (A)	Wedi'i asesu, neu wedi'i asesu'n rhannol, ni chanfuwyd tystiolaeth o fethu â chydymffurfio
Cam gweithredu yn unig (X)	Cam gweithredu sy'n berthnasol i asesiad y gweithgarwch yn unig
Parhaus (O)	Achos parhaus o fethu â chydymffurfio, heb ei sgorio

Categorïau ar gyfer methu â chydymffurfio	Disgrifiad
C1 Mawr	Posibilrwydd o gael dylanwad neu effaith fawr, difrifol, parhaus a/neu helaeth ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo
C2 Sylweddol	Posibilrwydd o gael dylanwad neu effaith sylweddol ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo
C3 Mân	Posibilrwydd o gael mân ddylanwad neu effaith ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo neu ddylanwad neu effaith fach
C4 Dim dylanwad amgylcheddol	Achos o fethu â chydymffurfio ar safle rheoledig lle nad oes modd rhagweld y byddai'n cael unrhyw ddylanwad ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo

Os yw canlyniad eich asesiad yn Adran 1 wedi'i atal, beth mae hyn yn ei olygu?
Yn unol â'n canllawiau, gallwn atal sgoriau am hyd at chwe mis er mwyn caniatáu bod amser i gymryd camau adfer. Bydd sgoriau sydd wedi'u gohirio yn cael eu hadfer os na chaiff y weithred ei chwblhau.

Rhestr lawn o feini prawf gweithredu ansawdd dŵr (a ddefnyddir yn adrannau 1 a 2):

WQ A: Rheolaeth

- WQ-A1 Rheolaeth gyffredinol

WQ B: Gweithrediadau

- WQ-B1 Gweithgareddau a ganiateir
- WQ-B2 Y safle
- WQ-B3 Technegau gweithredu
- WQ-B4 Rhaglen wella
- WQ-B5 Amodau cynweithredol

WQ C: Allyriadau a monitro

- WQ-C1 Allyriadau i ddŵr
- WQ-C2 Allyriadau i dir
- WQ-C3 Allyriadau sylweddau na chaiff eu rheoli gan gyfyngiadau allyriadau
- WQ-C4 Monitro
- WQ-C5 Gosod tyllau turio monitro

WQ D: Gwybodaeth

- WQ-D1 Cofnodion
- WQ-D2 Adrodd
- WQ-D3 Hysbysiadau

Ymateb gorfodi
Mae unrhyw achosi o fethu â chydymffurfio ag amod mewn trwydded yn drosedd, a gallwn gymryd camau gweithredu cyfreithiol yn eich erbyn. Gallai'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd gynnwys erlyniad, cyflwyno hysbysiad i chi a/neu wahardd neu ddirymu eich trwydded. Gweler ein canllawiau gorfodi a sancsiynau am ragor o wybodaeth.

Hysbysiad diogelu data
Dylech sicrhau bod unrhyw un sydd wedi'i enwi yn yr adroddiad hwn yn gwybod y bydd y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ynddo yn cael ei phrosesu gan Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cyflawni ei swyddogaethau rheoliadol a monitro ac er mwyn cynnal y gofrestr neu'r cofrestrau cyhoeddus perthnasol.

Gallwn hefyd ddefnyddio a/neu ddatgelu'r adroddiad mewn perthynas â'r canlynol:

- cynnig neu ddarparu ein llenyddiaeth neu wasanaethau i chi mewn perthynas â materion amgylcheddol
- ymgynghori â'r cyhoedd, cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill (e.e. yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, awdurdodau lleol) ynghylch materion amgylcheddol
- cynnal gwaith dadansoddi, ymchwil a datblygu ystadegol ar faterion amgylcheddol
- darparu gwybodaeth y gofrestr gyhoeddus i ymholwyr
- ymchwilio i achosion posibl o dorri cyfreithiau amgylcheddol

- asesu bodlonrwydd â gwasanaethau cwsmeriaid a gwella ein gwasanaeth
- Ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Gallwn hefyd ei rhannu â'n hasiantiaid neu gynrychiolwyr er mwyn gwneud y pethau hyn ar ein rhan.

Datgelu gwybodaeth – bydd yr adroddiad hwn ar gael i'w weld ar-lein
Os ydych yn meddwl bod yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth sy'n fasnachol gyfrinachol na ddylid ei gosod ar ein cofrestr gyhoeddus, rhaid i chi gysylltu â'ch swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru leol o fewn 15 diwrnod gwaith i dderbyn yr adroddiad hwn, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd yn y neges e-bost neu lythyr sydd ynghlwm â'r adroddiad hwn. Mae'n rhaid i chi roi esboniad llawn o pam na ddylid ei hychwanegu at ein cofrestr gyhoeddus, gan gynnwys pennu pa wybodaeth sy'n fasnachol gyfrinachol. Byddwn yn asesu eich cais ac yn ymateb i chi o fewn 20 niwrnod gwaith er mwyn rhoi gwybod i chi a ydym yn cytuno i'ch cais.

Anghytuno ynglŷn â Chynnwys y Ffurflen Adrodd Asesu Cydymffurfiaeth hon
Os ydych chi'n anghytuno â chynnwys y ffurflen Adrodd Asesu Cydymffurfiaeth hon, dylech chi gyflwyno eich pryderon, yn ysgrifenedig, i'r swyddog rheoleiddio a'i cyhoeddodd o fewn **15 diwrnod gwaith** ar ôl iddi gael ei chyhoeddi. Bydd hyn yn cael ei drin fel **adolygiad Cam 1**.

Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad yr adolygiad cam 1, gallwch wneud cais am **apêl Cam 2**. Rhaid cyflwyno'r cais hwn **o fewn 21 diwrnod gwaith** ar ôl derbyn yr ymateb o'r adolygiad cam 1.

Mae rhagor o fanylion am ein proses adolygu ac apelio ar gael yn: Cyfoeth Naturiol Cymru / Apelio yn erbyn penderfyniad rheoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Pryderon nad ydynt yn gysylltiedig â chynnwys y Ffurflen Adrodd Asesu Cydymffurfiaeth hon
Os nad yw eich pryderon yn ymwneud â chynnwys y ffurflen Adrodd Asesu Cydymffurfiaeth, dylech geisio datrys y mater gyda'r swyddog rheoleiddio neu ei reolwr llinell yn gyntaf.

Os yw'r broblem yn parhau heb ei datrys, cysylltwch â'n **Tîm Cyswllt Cwsmeriaid**:
- **Ffôn:** 0300 065 3000 (Dydd Llun i Ddydd Gwener, 09:00–17:00)
- **E-bost**:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Byddant yn rhoi manylion ar sut i uwchgyfeirio eich pryderon drwy ein **gweithdrefn Cwynion a Chanmoliaeth**.

Os ydych chi'n anfodlon â'n hymateb, gallwch gysylltu ag **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**:
- **Ffôn:** 0300 790 0203
- **E-bost**:gofynnwch@ombwdsmon.cymru

Safonau'r Gymraeg

Rydym yn ymrwymedig i sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru fel sefydliad sy'n naturiol ddwyieithiog. Darparwn adroddiadau cydymffurfiaeth yn eich iaith ddewisol.